



TAG ADRODDIADAU ARHOLWYR

**TAG (NEWYDD)
CYMRAEG IAITH GYNTAF
UG/UWCH**

HAF 2017

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 1
Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2017

Uwch Gyfrannol/Uwch

Uned 1: Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd

Cyffredinol

Unwaith eto, profiad hyfryd fu cael cyfarfod â chymaint o bobl ifanc huawdl a deallus a diolch o galon iddynt am eu cwrteisi a'u parch. Cawsom fel arholwyr groeso cynnes ym mhob canolfan a llwyddwyd i sicrhau ystafell addas i arholi ym mwyafrif y canolfannau. Gair caredig i ambell ganolfan felly, bod angen sicrhau chwarae teg i'w hymgeiswyr ac nad yw arholi ar goridor swnllyd lle mae disgyblion yn gallu tarfu yn amodau teg.

Croesawn y ffaith fod canolfannau wedi nodi marciau perfformiad yr ymgeiswyr mewn ffug arholiadau, ond hoffem weld pob canolfan yn nodi enwau'r ymgeiswyr yn **nhrefn teilyngdod** yn hytrach nag yn nhrefn yr wyddor neu mewn grwpiau parod.

Mae arweiniad yr ysgol yn ddefnyddiol iawn wrth drafod anghenion a lles unigolion ond rhaid nodi mai'r arholwyr sydd yn dewis y grwpiau ac nad yw arholi grwpiau sydd wedi eu trefnu yn barod gan yr ysgol yn ateb gofynion CBAC nac o reidrwydd yn fanteisiol i'r ymgeiswyr.

Sut gall rhai canolfannau wella o ran y paratoi?

- Mae angen ymarfer gofyn cwestiwn penodol i'r ymgeiswyr gan symud ymlaen i ofyn cwestiwn arall unwaith y maent wedi ei ateb a'i ddatblygu'n llawn. Roedd ymgeiswyr mewn rhai canolfannau wedi arfer cael cwestiynau pen agored ac yn teimlo braidd yn anghyfforddus wrth i'r arholwr dorri ar draws y llif geiriau er mwyn cael mwy o dystiolaeth benodol. Tuedd rhai unigolion oedd crwydro'n hirwyntog a cholli ffocws y cwestiwn. Mae crefft mewn bod yn gynnil.
- Er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr yn colli'r cyfle i ymresymu a datblygu trafodaeth dylid sicrhau nad yw ymgeiswyr yn torri ar draws ei gilydd. Mae gwrandao ar gyfraniadau ei gilydd a safbwyntiau amrywiol o fewn y grŵp yn sgil bwysig.

Dramâu

Roedd y trafodaethau ar y ddrama yn gyffredinol dda a gwelwyd cynnydd yn sicr o ran sylwadau yr ymgeiswyr eleni wrth drafod rhai agweddau penodol. Roedd nifer yn trafod yn ddeallus, yn ddadansoddol, gan arddangos gwybodaeth dda a thrylwyr. Rhaid canmol yr ymgeiswyr am ddyfynnu'n ystyrion a chyson. Braff clywed sylwadau ffres hefyd yn hytrach nag ailadrodd sgysiau llawr dosbarth. Braff gweld y goreuon yn gallu gwneud cysylltiadau a thynnu casgliadau craff.

Cryfderau Siwan

- Deall pam yr ildiodd Siwan i Gwilym Brewys
- Dadansoddi cymeriad Gwilym Brewys
- Y newid a welir ym mhersonoliaeth Siwan rhwng Act 1 ac Act 3
- Dealltwriaeth o arwyddocâd chwedl Trystan ac Esyllt
- Hoff ddyfyniadau yn dod yn naturiol yn y sgwrs
- Perthynas Siwan ac Alis
- Y gwahaniaeth rhwng Gwilym a Llywelyn - braf clywed ambell ymgeisydd wedi cydio yn y ddelwedd o Siwan fel *rhosyn* (*symbol o serch a phrydferthwch byrhoedlog*) yn araith Gwilym a'r syniad ohoni fel *bedwen* (*coeden gyda gwreiddiau a symbol o hirhoedledd cariad*) yn araith Llywelyn
- Arwyddocâd diwedd Act 3
- Y tebygrwydd rhwng Siwan a Blodeuwedd
- Deall dylanwad y diwylliant Ffrengig
- Delweddau'r araith fawr - sylwadau bendigedig gan ymgeiswyr a oedd yn dadansoddi arwyddocâd y Greal a'r goleuni
- Gwell atebion eleni am y rheswm dros grogi Gwilym Brewys o gymharu â llynedd
- Trafodaethau deallus ar ieithwedd Alis yn Act 2
- Trafod dyfyniad - dealltwriaeth dda ar y cyfan o gyd-destun ac ystyr dyfyniad a roddwyd gerbron yr ymgeiswyr

Meysydd i wella:

- Roedd diffyg dyfnder wrth drafod araith Llywelyn ymhlith y disgyblion gwannaf ac anallu i gyfeirio at y delweddau – gwelwyd sawl enghraifft o ymgeisydd heb ddeall ystyr y term 'delwedd'.
- Roedd nifer yn methu dirnad pam y crogodd Llywelyn, Gwilym Brewys ac yn tybio mai cenfigen a siom yn unig oedd wrth wraidd y weithred yn hytrach nag ymateb Siwan iddo pan ddychwelodd a'i dadlau gwleidyddol. Cafwyd sylwadau megis '*sbeit*'. Mae'r allwedd yn y dyfyniad "*Bernaist y rhodddwn fy ngwraig am gynghrair a ffin...*" Cafodd Gwilym ddihangfa ffodus eisoes ar ôl ei ddal yn wystl ym mrwydr Llywelyn a Hubert de Burgh a chostiodd hynny draean ei gyfoeth a chastell iddo. Fe fyddai caniatáu dihangfa arall iddo yn arwydd o wendid mawr. Felly rhaid ei ddienyddio fel '*barwn wedi barn*'. Roedd llawer heb afael yn hyn.
- Siomedig oedd yr ymdriniaeth o'r themâu ar wahân i ddiffyg cyfathrebu a serch a chariad.
- Carem weld llawer mwy o ddyfnder wrth drafod yr olygfa rhwng Siwan a Gwilym a'i ddull ef o'i swyno hi. Carem fwy o gyfeirio at y synhwyrac ac *ias y blas* ... Defnyddia Siwan hefyd sawl dadl wleidyddol i'w hatal ei hun rhag ildio i'w serch e.e. Harri ei brawd yn Ffrainc, Isabela yn rhy ifanc, gwely Llywelyn yw hwn, Dafydd heb feibion, Gruffudd yn berygl, gagendor oed rhyngddi hi a Gwilym, y cyfan yn groes i bolisi Aberffraw.
- Mae angen mwy o sylw i dechnegau dramatig e.e dychweliad Llywelyn a'r effeithiau sain yn ddiffyg gyda llawer eleni.
- Mae angen mwy o sylw ar arwyddocâd y gyfeiriadaeth glasurol Ffransis y Brawd Llwyd, Casandra, Helen o Droea - cawsant eu nodi ond methai llawer o ymgeiswyr ag esbonio eu hystyr na'u harwyddocâd.
- Ceir tuedd i gyffredinol wrth drafod deallusrwydd Siwan wrth ymdrin â gwleidyddiaeth tra bo'r arholwyr yn chwilio am dystiolaeth bendant. Mae angen i'r goreuon fedru trafod y manylder gwleidyddol y sonnir amdano yn Act 1 ac Act 3.
- Mae angen cyfle i roi mwy o sylw i goegni Siwan yn ei haraith yn Act 3.

- Dylid rhoi sylw i sut y darlunia'r Act 1af gymdeithas y cyfnod o safbwynt diwylliannau cyferbyniol y llys, haenau cymdeithasol, crefydd yr oes ac arferion y cyfnod.
- Dylid parhau i ganolbwyntio ar grefft y ddrama. Roedd nifer o arholwyr eleni yn tywys yr ymgeiswyr fel petai er mwyn cael enghreifftiau amrywiol o nodweddion arddull. Mae'r ddrama yn gyforiog o ddelweddau cyfoethog a dylai'r goreuon fedru sylwi arnynt ymhob act o'r ddrama nid yn araith Llywelyn yn unig.

Cryfderau Y Tŵr

- Llwyddo i ystyried methiant y bachgen i dorri'n rhydd rhag ei fam yn yr agoriad
- Tystiolaeth i ddangos mai dau berson materol yw'r ddau brif gymeriad ac mai digon gwag yw eu bywydau
- Materoliaeth y gŵr yn yr ail act ac anffyddlondeb y wraig
- Y goreuon yn gallu trafod arwyddocâd y dyfyniad o waith Goronwy Owen '*Hafal blodeuyn hefyd i'n hoen fer yn hyn o fyd*' yn ddeallus
- Llwyddo i fynd dan groen y rhagrith sy'n elfen mor bwysig a hefyd hunan dwyll yr hen ŵr yn yr act olaf
- Dangos yr ansicrwydd a adlewyrchir wrth i'r cymeriadau heneiddio
- Trafod arwyddocâd y symbolau e.e. y jwg, y tymhorau, y pili pala, y trêen yn ddeallus

Meysydd i wella:

- Mae angen gwell dealltwriaeth o arddull y ddrama, sef y defnydd o dafodiaith Deiniolen – prin iawn oedd yr enghreifftiau a ddyfynnwyd.
- Dylid rhoi mwy o sylw i grefft y ddrama, yn benodol wrth i'r dramodydd adleisio yr hyn a ddywed cymeriad mewn un act drwy ei ailadrodd yn yr act nesaf.
- Gellir rhoi llawer mwy o sylw i dechnegau deialog Gwenlyn Parry, e.e. deialog cryno "ergyd bwled", monologau, deialogau digyswllt i gyfleu pellter y cymeriadau, seibiau, defnydd mynych o elipsis...
- Dibwynt yw cyfeirio at *Pinter* a *Beckett* os nad oes gan yr ymgeiswyr wir ddealltwriaeth o waith a nodweddion gwaith y dramodwyr hyn. Roedd llawer yn mynd i gors wrth geisio cymharu gwaith Gwenlyn Parry gyda gweithiau dramodwyr Theatr yr Abswrd. Mae angen deallusrwydd uchel i wneud hyn yn llwyddiannus. Gwell weithiau i ymgeiswyr canolig ac is eu gallu gadw at y testun dan sylw.
- Gellir rhoi mwy o sylw i arwyddocâd y SET. Mae mwy o set na grisiau yn unig e.e. lamp, ffenestr, y sgrin, cyfarwyddiadau goleuo.
- Mae angen rhoi sylw i'r agweddau clywedol yn y ddrama e.e. cerddoriaeth haniaethol, taran, lleisiau, tinc, cnul, trêen.
- Mae angen sylw ar arwyddocâd yr olygfa yn Act 1 lle mae'r ferch yn rhedeg ar ôl pili pala trwy'r cae yd.
- Mae angen mwy o sylw i gymeriadau Preis a D.J. a'r mamau – pam cyfeirio atynt cymaint yn y ddrama?
- Mae angen mwy o sylw i'r golygfeydd sy'n cyfleu hapusrwydd e.e. y caru, y daith i'r Wyddfa, y trip ysgol i Lundain.

Hedd Wyn

Cafwyd trafodaethau byrlymus, deallus a dadansoddol gan lawer o grwpiau a gallai rhai blethu dyfyniadau'n llwyddiannus i'r drafodaeth yn ogystal â chyfeirio'n gyson at dechnegau ffilm wrth drafod. Mae'n amlwg ei bod yn ffilm sy'n llwyddo i afael yn nychymyg yr ymgeiswyr a hefyd yn llwyddo i gyffwrdd ynddynt. Y gamp wrth gwrs yw casglu'r perthnasol ynghyd o wahanol rannau'r ffilm er mwyn trafod y darlun 'mawr'.

Cryfderau

- Y darlun o Drawsfynydd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf
- Elis y rhamantydd a dylanwad y merched ar Ellis
- Aelwyd yr Ysgwrn
- Datblygiad Ellis yn ystod y ffilm
- Braf clywed rhai ymgeiswyr yn sôn bod Ellis yn tyfu'n debycach i'w dad wrth i'r ffilm ddatblygu e.e. siot lydan o'r ddau yn ysmygu pib a naws tadol Elis yn gofalu am Bob yn y ffosydd
- Symboliaeth
- Dylanwad y rhyfel ar Drawsfynydd
- Y drafodaeth ar Owain, Fred a Bob yn well eleni yn enwedig y defnydd o gymeriad Owain fel ffynhonnell hiwmor yn y ffilm
- Effaith y llinellau o farddoniaeth a gaiff eu llefaru yn ystod y ffilm
- '*Natur yw moddion yr enaid*' - John Morris Jones – roedd hi'n wirioneddol wych clywed rhai ymgeiswyr yn cymhwyso hyn i farddoniaeth ramantaidd Hedd Wyn
- Cyfeirio at yr offerynnau unigol yn ystod y symffoni a'u heffaith arnom
- Mwy o sylw i arwyddocâd geiriau rhai caneuon megis '*Dyma gariad fel y moroedd*' / *When this bloody war is over*
- Uchafbwyntiau diddorol yn cael eu nodi a rheiny'n amrywio
- Y rhai a gafodd gwestiwn am berthynas Ellis/Magi yn medru cynnig nifer o sylwadau perthnasol, cyfeirio at rai golygfeydd a chynnig rhai dyfyniadau; roedd ambell ymgeisydd yn cymysgu Magi a Mary
- Dealltwriaeth dda o gymeriad William Morris a'i ran allweddol yn y ffilm
- Yr olygfa recriwtio - dadansoddi manwl a threiddgar gan nifer gyda manylder ar y gwaith camera a'r sain

Meysydd i wella:

- Mae'r ymdriniaeth o dechnegau ffilmio ar y cyfan yn iawn ond caredm weld mwy o feistrolaeth o derminoleg ac amrywiaeth. Mae angen sylw ar oleuo a'r defnydd o liw yn y ffilm.
- Mae'r drafodaeth am gerddoriaeth yn arbennig yn y golygfeydd o'r ffosydd yn arwynebol. Disgwyliwn fwy am effaith cerddoriaeth operatig Mahler a'r naws a gaiff ei greu. Pam defnyddio geiriau Almaeneg y gân o Symffoni rhif 5 Mahler?
- Gellir rhoi mwy o sylw i'r agweddau rhamantaidd yn Ellis a nodweddion y bardd rhamantaidd a welir ynddo yn y rhan agoriadol e.e. dylanwad R. Williams Parry, natur, serch, y merched. Mae cyfle i'r rai ymgeiswyr fynd i'r afael â rhamantiaeth a meddwl Hedd Wyn fel bardd.
- Roedd rhai yn ei chael hi'n anodd iawn i drafod rhagrith crefydd yn y ffilm.
- Mae trafod stwythur y ffilm yn wan gan fyfyrwyr canolig; y term strwythur yn peri anhawster.
- Roedd cyfodod golygfeydd gwrthgyferbyniol yn anhawster mewn rhai canolfannau – y term cyfodod oedd yn anghyfarwydd iddynt. Câi'r ymgeiswyr yn aml drafferth i enghreifftio'n dda heblaw am yr olygfa agoriadol.
- Ar y band uchaf o farciau byddid yn disgwyl mwy o drafodaeth am y rheswm dros gynnwys sibrwd y farddoniaeth ac arwyddocâd yr awdl.
- Tuedd gan rai canolfannau i gymysgu golygfa'r **recriwtio** a'r olygfa o flaen y **tribiwnlys**.
- Mae cyfle i'r canolig amlhau eu tystiolaeth wrth drafod hiwmor y ffilm – ni chafwyd llawer o dystiolaeth ag eithrio '*watsha lle ti'n piso.*'

- Yr ôl-fflachiadau – nid oedd rhai ymgeiswyr yn gweld mai Hedd Wyn yn edrych yn ôl ar ei fywyd sydd yma, ac yntau yn hanner marw. Byddai deall hynny yn eu galluogi i esbonio pam roedd ef ei hun ym mhob golygfa (ag eithrio'r un gyda Mary Catherine a'r lili, golygfa sy'n gorfod cael ei hystyried fel ffrwyth ei ddychymyg rhamantaidd felly). Mae'n esbonio pam mae'r lliwiau yn y dyddiau da mor llachar. Bardd rhamantaidd sydd yn edrych yn ôl ar ei fywyd ac yn ystyried y pethau pwysig yn ei fywyd. Mae hyn hefyd wedyn yn esbonio pam mae barddoniaeth a chadeiriau mor ganolog.
- Mae angen dyfynnu'n gywir ac yn ystyrion er mwyn atgyfnerthu'r dystiolaeth.

Ansawdd iaith

- Llwyddai'r goreuon i gyfathrebu'n glir mewn iaith gyhyrog gan ddatblygu eu pwyntiau yn ddeallus a llawn. Gellir canmol ansawdd iaith y rhan fwyaf.
- Cafwyd rhai gwallau ieithyddol wrth drafod *Siwan* a'r diffyg treiglo cywir wedi 'ei' [benywaidd].
- Nodweddid iaith rhai ymgeiswyr gan eiriau Saesneg niferus.

Mawr obeithio gall rhai canolfannau ymelwa ar y canfyddiadau uchod wrth drafod y gwahanol feysydd a pharatoi'r ymgeiswyr. Manylwyd yn bwrpasol er mwyn bod o gymorth.

Hoffwn ddiolch i'r holl athrawon am baratoi'r ymgeiswyr cystal ar gyfer yr uned hon ac i'r arholwyr am eu gwaith caled yn arholi.

CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 2

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2017

Uwch Gyfrannol/Uwch

Uned 2: Aseiad Diarholiad

Gweinyddol

Cyrhaeddodd y ffolios bron i gyd yn brydlon a threfnus. Atgoffir canolfannau i sicrhau bod enw a dyddiad ar bob tasg a bod ffurfiau'r tasgau wedi'u nodi ar y daflen flaen. Asewyd y gwaith yn ofalus a gwelwyd sylwadau ystyrion a defnyddiol gan fwyaf yr athrawon er bod lleiafrif bach yn parhau i gopïo brawddegau o'r cynllun marcio'n slafaid heb geisio cyfeirio at rinweddau penodol. Gwelwyd enghreifftiau da o safoni mewnol ble roedd marc wedi'i newid a sylwadau i gyfiawnhau'r newid hwnnw tra bo ambell ganolfan yn bodloni ar daro llofnod heb fawr ddim tystiolaeth o bwysu a mesur.

Tasg 1

Braf gweld bod sawl canolfan wedi bod yn ddigon hyderus i gyflwyno ystod o ffurfiau gan roi rhyddid i'r ymgeiswyr ddewis ffurf at eu dant. Unwaith eto eleni, gwelwyd lleiafrif o ganolfannau yn gosod yr un ffurf, hyd yn oed yr un teitl i bob ymgeisydd. Rhaid cwestiynu beth yw sail y penderfyniad hwn – ai diffyg amser neu ddiffyg hyder? Cofiwch mai un o brif amcanion y fanyleb newydd oedd sicrhau bod myfyrwyr yn cael blas ar ystod o ffurfiau ac yn cael dewis ffurf fyddai'n gweddu'n bersonol iddynt. Roedd safon ieithyddol y tasgau'n amrywio – yn unol â'r disgwyl – ond siomedig yw gweld gwallau teipio a chywiriadau 'Saesnig' fel 'l' yn britho gwaith ambell ymgeisydd. Dyma air am y ffurfiau:

Pennod gyntaf o nofel: Dewiswyd y ffurf hwn gan fwy o ymgeiswyr eleni a chawsant gryn lwyddiant wrth fynd ati i hau llinynnau storiol a chyflwyno cymeriadau. Yn y rhai llai llwyddiannus, nid oedd digon o ymgais i ddal diddordeb y gynulleidfa ac roedd yn anodd gweld beth fyddai trywydd y nofel.

Erthygl olygyddol / ysgrif i bapur newydd / adroddiad newyddiadurol: Eto, fe welwyd cynnydd yn y nifer ddewisodd y ffurfiau hyn ac unwaith eto, gwelwyd gweithiau llwyddiannus iawn. Braf oedd gweld amrywiaeth o destunau yn cael sylw, o faterion gwleidyddol i'r cymdeithasol a'r diwylliannol. Roedd cynnwys y gweithiau'n llwyddiannus a chywir ar y cyfan, ond yr hyn oedd ar goll gan rai eto oedd yr ymwybyddiaeth hollbwysig o gynulleidfa. Mae'n RHAID i arddull y dasg fod yn ddifyr a darllenadwy, ac mae'n rhaid cynnal diddordeb y darlennydd, boed hynny drwy ddefnydd o ddychan, hiwmor neu rethreg. Rhaid rhoi sylw i'r pennawd, y gosodiad, yr agoriad a'r clo er mwyn creu gwaith cydlynus y gellid ei gyhoeddi mewn papur newydd neu gylchgrawn.

Stori fer / Dyddiadur: Dyma'r dewis mwyaf poblogaidd o ddigon. Cafwyd amrywiaeth o destunau gyda 'Dianc' yn destun poblogaidd a braf gwybod i ambell dasg brofi llwyddiant yn yr Urdd hefyd. Gwelwyd gwaith uchel iawn ei safon yma, ac un safonwr yn nodi iddi ddarllen straeon 'gwirioneddol afaelgar'. Roedd yma aeddfedrwydd a chywirdeb ac roedd yn amlwg bod saerniaeth y straeon wedi'u cynllunio'n ofalus iawn. Yng nghanol yr ystod, roedd tuedd i ddweud yn lle awgrymu; byddai cyflwyno mwy o enghreifftiau o weithiau gan awduron fel Meleri Wyn James, Lleucu Roberts a Fflur Dafydd o gymorth i'r ymgeiswyr wrth ddeall crefft datguddio, pwysigrwydd cynildeb a gwerth delweddaeth wrth gyfleu emosiwn.

Portread: Cafwyd enghreifftiau o bortreadau annwyl a didwyll oedd yn darlunio a dehongli cymeriad yn gynnil a chofiadwy. Roedd yn amlwg bod ymgeiswyr rhai canolfannau wedi cael cynllun pendant wrth fynd ati i lunio portread – bron nad oedd fformiwla berffaith wedi ei chreu! Ond er mor dda oedd rhai o'r portreadau hyn, tueddent i golli eu blas wrth i'r safoni fynd rhagddo, gadewch i'r ymgeiswyr wneud y gwaith caled!

Ymson: Mae hwn yn ffurf y mae amryw yn hoff o'i ddefnyddio a gwelwyd gallu da i gyfleu emosiwn wrth fyfyrion ar amrywiol brofiadau. Gwendid sawl ymson oedd bod tuedd i esbonio yn lle meddwl, cofnodi digwyddiadau yn hytrach na myfyrion arnynt. Unwaith eto, byddai defnyddio enghreifftiau pwrpasol, megis y rhai ar wefan ddiogel CBAC yn fodd o roi gwell arweiniad i ymgeiswyr o'r hyn sy'n ddisgwyliedig yn y ffurf hwn.

Sgript: Prin oedd y sgriptiau, ond braf gweld ambell ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y ffurf ac wedi cael hwyl wrth fynd ati i ddehongli'r cynnwys a'u haddasu'n greadigol. Roedd sylw da i dechnegau ffilm yn hytrach na dibynnu ar ddeialog ac roedd digon o wreiddioldeb yn ymateb yr ymgeiswyr.

Cyfres o flogiau: Cafwyd un enghraifft eleni a hwnnw'n waith llwyddiannus yn bwrw golwg ffraeth ar ddatblygiadau gwleidyddol. Roedd gan yr ymgeisydd ymwybyddiaeth dda o'i gynulleidfa ac roedd digon o amrywiaeth yn y cynnwys ac arddull i gadw diddordeb.

Hunangofiant: Eto, daeth un enghraifft brin i law ac roedd yma waith difyr oedd yn dethol digwyddiadau arwyddocaol gan fanylu arnynt mewn modd sensitif a chreadigol.

Tasg 2

Canmolwyd pynciau trafod y dasg mynegi barn gan un safonwr fel rhai 'doeth iawn'. Roedd bron pawb wedi mynd am destun cyfoes a'r rhan fwyaf wedi llunio gosodiad neu gwestiwn addas i'w drafod. Gofaler nad yw'r gosodiad yn rhy eang; er enghraifft yn lle trafod 'problemau cefn gwlad' gwell fyddai manylu ar un agwedd benodol megis y diwydiant llaeth neu cau ysgolion er mwyn sicrhau bod dadleuon yn cael eu datblygu'n llawn.

Cofier mai tasg mynegi barn **ar sail ymchwil** yw'r dasg hon. Teimlwyd bod y gwaith ymchwil yn fylchog mewn sawl achos a'r traethu'n arwynebol o'r herwydd. Mae'r band uchaf o farciau yn gofyn am ddadleuon 'cymhelth' ac ni cheir y rhain, mewn gwirionedd, heb fynd ati i ymchwilio'n drwyadl a darllen ambell i ffynhonnell estynedig. Nododd un safonwr y dylai athrawon, efallai, gynnig mwy o arweiniad i ymgeiswyr ar sut i ganfod gwybodaeth berthnasol yn enwedig o ffynonellau Cymraeg a sut i gyfeirio at y ffynonellau hynny'n ystyrlon. Nid yw creu llyfryddiaeth yn orfodol ar ddiwedd y dasg ond mae'n arfer dda wrth sicrhau hygredd i'r araith neu draethawd. Noder hefyd ei bod yn arfer dda cyfieithu dyfyniadau Saesneg.

Nododd sawl safonwr eto eleni yr angen i ystyried gwrthddadleuon, yn enwedig ar y bandiau uwch. Mae'n anodd gwneud hyn gydag ambell destun, e.e. dyfodol yr iaith Gymraeg neu Greulondeb i Anifeiliaid a dylid rhoi ystyriaeth i hyn wrth gynllunio'r dasg. Ar y cyfan, roedd sawl canolfan ychydig yn hael wrth asesu'r dasg hon; cofiwch nad yw cywirdeb iaith ar ei ben ei hun yn sicrhau mynediad i'r bandiau uchaf, ond rhaid cofio hefyd na ellir anwybyddu safon yr iaith os oes llawer o gamgymeriadau'n codi. Atgoffir canolfannau ei bod yn arfer dda anodi gwaith gyda 'b' (barn), 't' (tystiolaeth), 'cg' (croesgyfeirio) a 'g' (gwrth-ddadl) wrth farcio gan ei fod o gymorth wrth ddod i farn.

Gobeithiaf y bydd pob canolfan yn darllen a rhoi sylw manwl i'w hadroddiad unigol. Sylwadau cyffredinol sydd yma ond mae'r adroddiadau unigol yn cynnig sylwadau penodol i'r ganolfan dan sylw. Hoffwn ddiolch o galon i'r safonwyr am eu gwaith caled ac i chithau fel athrawon am baratoi'r ymgeiswyr cystal ar gyfer yr uned hon.

CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 3

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2017

Uwch Gyfrannol/Uwch

Uned 3: Defnyddio iaith a Barddoniaeth

A hithau'n ail flwyddyn astudio'r fanyleb newydd eleni braf gweld bod sgiliau'r ymgeiswyr yn parhau i ddatblygu yn arbennig yn Adran A a bod ganddynt yn gyffredinol well dealltwriaeth o dermau gramadeg. Rhaid nodi fodd bynnag ei bod yn eithriadol bwysig darllen gofynion y cwestiynau'n ofalus; bu hynny'n faen tramgwydd i rai ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu eto eleni.

Adran A: Defnyddio iaith

Dyma rai sylwadau all fod o gymorth, sylwadau sy'n canolbwyntio ar y prif anawsterau a welwyd:

- 1a** Roedd hi'n syndod gweld bod y *ferf amhersonol* yn peri cymaint o drafferth gan nad yw'n gwestiwn newydd. Ychydig sy'n cofio dangos mai berf amhersonol sydd yma drwy gynnwys 'gan ...'. Gwelwyd sawl enghraifft ble gellid cyfnewid y ferf a chafwyd tuedd i dreiglo wedi'r ferf hefyd yn enwedig y ferf 'bod'.

Roedd rhai'n defnyddio'r *arddodiad* anghywir yma. Un cyffredin oedd '*gwneud hwyl ohoni hi,*' neu '*clywed ohoni hi.*'

Un o'r gwallau amlycaf oedd anghofio rhoi atalnod llawn ar ddiwedd brawddegau. Roedd y brawddegau amlgymalog yn peri trafferth yn aml iawn, a'r ymgeiswyr hynny a oedd yn amlwg wedi arfer cadw'r brawddegau'n fyr yn elwa ac yn colli llai o farciau am wallau iaith.

1b

- (i) Roedd adnabod 'pan' fel *cysylltair* yn peri mwy o drafferth i rai ymgeiswyr.
- (ii) Cafodd nifer dda eu baglu gyda 'prifysgol' fel *enw unigol gwrywaidd*. Mae cyfle i'r ymgeiswyr adolygu ymhellach y gwahaniaeth rhwng '*berf*' a '*berfenw*'.
- (iii) Roedd rhan fwyaf wedi adnabod *ffurf gwmpasog a chryno* ond nid oeddent bob tro wedi gallu defnyddio'r termau cywir i gyfleu hynny. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i adnabod *amser y ferf* yn y ddwy yn gywir.
- (iv) Roedd cysylltu'r brawddegau wedi bod yn annisgwyl o anodd, yn arbennig yr un gyntaf. Roedd *rhedeg yr arddodiad* yn yr ail frawddeg yn aml ar goll, fel y *rhagenw* 'eu' oedd yn ddigon prin yn y frawddeg gyntaf. Roedd rhai ymgeiswyr yn newid y brawddegau'n llwyr ac yn colli'r ystyr, eraill yn newid yr amser i'r gorffennol, e.e. '*roedd eu hangen*'.
- (v) Camgymeriad eithaf cyffredin hefyd oedd cychwyn y frawddeg â 'Nad' yn hytrach na '*Nid*'. **Fel nodwyd llynedd gwallau iaith oedd maen tramgwydd pennaf rhai ymgeiswyr yma a hynny'n gostwng y safon. Tasg syml yn anffodus yn cael ei chymhlethu.**

- (vi) Syndod cyn lleied a lwyddodd i resymu'r gwall '*eu rhieni hi*' gan ddefnyddio'r term *rhagenw unigol* yn gywir.
- (vii) Am ryw reswm roedd llunio brawddegau amrywiol a oedd yn llifo'n naturiol yn anodd yma. Gwelwyd rhai yn newid amser y ferf, ac yn newid ystyr yn llwyr ar brydiau. **Rhaid cofio beth yw nod y cwestiwn sef meithrin sgiliau ysgrifennu cywir gan ystyried cywair y darn yn ofalus ac amrywio'r brawddegau.** Gwelwyd enghreifftiau o ddefnyddio 'bydd' deirgwaith a gwall cyffredin iawn oedd peidio â threiglo'r adferf. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau gwych o frawddegau cywir a naturiol.

Adran B: Barddoniaeth

Unwaith eto eleni cafwyd traethodau hir a drwyddi draw teimlir bod gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r cerddi. Wrth gwrs roedd y gerdd '*Sul y Mamau yn Greenham*' yn gerdd newydd a gyflwynwyd eleni mewn cwestiwn arholiad am y tro cyntaf. Roedd y ddau gwestiwn yn apelio er bod y traethawd yn seiliedig ar 'bobl' yn fwy poblogaidd mewn sawl canolfan.

Sylwadau cyffredinol sydd isod ond gobeithio y byddwch fel canolfannau yn rhoi sylw manwl i'r pwyntiau sydd wedi codi eleni.

Cryfderau

- Gwelwyd **trafodaethau** mwy **cytbwys** eleni ar y tair cerdd.
- Roedd canolfannau wedi hyfforddi ymgeiswyr yn dda i **saernïo traethawd** ac o'r herwydd roedd y mwyafrif yn strwythuro'n effeithiol gan gynnwys paragraff agoriadol a pharagraff clo.
- Gwelwyd ymdrech dda i grynhoi yn y clo gan ailymweld â gofynion y cwestiwn.
- Rhyfeddir ar allu'r goreuon i grynhoi ffeithiau perthnasol gan arddangos, nid yn unig wybodaeth drylwyr am y cerddi, ond y gallu i ddehongli'n ddeallus a threiddgar.
- Roedd sylwadau ar y gerdd '*Sul y Mamau yn Greenham*' yn amlygu dealltwriaeth yr ymgeiswyr o hanfod y gerdd, ei pherthnasedd ac arwyddocâd arbennig y lleoliad.
- Roedd ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu wedi llwyddo i ddeall coegni Karen Owen yn '*Cân y Milwr*'.
- Roedd rhelyw'r ymgeiswyr yn ymwybodol o'r angen i **gymharu'r cerddi**, rhai ohonynt yn llwyddo i wneud cysylltiadau aeddfed a deallus drwy'r traethawd yn hytrach nag ymdrin â'r cerddi fesul un.
- Gwelwyd bod mwyafrif llethol yn llwyddo i **wau thema ac arddull** yn ddeallus i'w trafodaethau.
- Gwelwyd y gallu i **ddyfynnu'n** effeithiol, gyda hyd yn oed yr ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y brig, yn dda gan arddangos y gallu i ddyfynnu'n ddigon cywir, yn hyderus a naturiol ar draws yr ystod gallu.

Gwendidau

- Roedd mwy o ymgeiswyr eleni wedi **cymysgu cerddi** gan ddewis y gerdd anghywir i gyd-fynd â'r beirdd, ac o ganlyniad effeithiwyd ar y marc yn sylweddol.
- Roedd rhai ymgeiswyr yn **brin o wybodaeth** am y cerddi unigol a chan fod ganddynt fwy o amser, yn tueddu i ailadrodd yr un wybodaeth.
- Rhaid gwylio'r duedd i **orgyffredinoli** wrth drafod rhai cerddi e.e. cafwyd tuedd i ganolbwyntio'n ormodol ar gefndir '*Gwenllian*' a Saunders Lewis. Yn yr un modd wrth drafod cerdd Gwyn Thomas, amlhawyd geiriau wrth sôn am agwedd y bardd at Blaenau Ffestiniog gan golli golwg ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud yn y gerdd.

- Gwelwyd ambell draethawd yn hynod ddeallus ond roedd yr ymdriniaeth o **arddull y cerddi yn brin** iawn.
- Roedd rhai ymgeiswyr yn colli'r cyfle i ystyried '**arwyddocâd y bobl**'. Rhaid cofio mai defnyddio testun ei gerdd i gyfleu ein difaterwch a'n diffyg asgwrn cefn fel cenedl a wna Gerallt Lloyd Owen yn 'Y Gŵr sydd ar y Gorwel'.
- Mewn ambell ganolfan cafwyd tuedd ar draws yr ystod gallu i drafod yn orthematig a hynny ar **draul trafod rhannau allweddol o'r cerddi**. Cafwyd enghraifft hefyd o draethodau lle'r oedd tuedd i **orgymhlethu'r drafodaeth** wrth gymharu'r cerddi'n ormodol. Hynny yw, ar adegau roedd y sylwadau mor bytiog nes bod diffyg dilyniant a llif i'r drafodaeth.
- Er nad yw'r gerdd '*Gwenllian*' yn gerdd newydd ar y fanyleb roedd tuedd gan rai ymgeiswyr i ganolbwyntio ar y pennill cyntaf a neidio at y gobaith yn y clo. Yn yr un modd mae cyfle yn '*Beaufort, Blaenau Gwent, mewn gwyrdd*' i fanylu fwyfwy ar ran gyntaf y gerdd ble cymerir dirywiad y Gymraeg a'r dirywiad yng nghyflwr y cerrig beddau.

Hoffwn ddiolch i'r arholwyr am eu gwaith ac i chwithau fel athrawon am ysbrydoli'r ymgeiswyr a'u paratoi gystal ar gyfer yr arholiad.

CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 4

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2017

Uwch Gyfrannol/Uwch

Uned 4: Y Nofel a Llafaredd

Roedd cael ymweld â chanolfannau i arholi a gwrando ar gymaint o bobl ifanc yn trafod llenyddiaeth yn ddeallus, craff a brwdfrydig yn bleser arbennig. Ar draws yr ystod gallu, roedd ôl paratoi ar y gwaith a'r ymgeiswyr yn amlwg wedi wedi mwynhau'r profiad o astudio'r nofelau ac wedi llwyddo i uniaethu â'r themâu oedd yn codi. Nododd sawl arholwr bod safon ieithyddol y myfyrwyr eleni yn hynod huawdl ac yn gyforiog o idiomau byw.

Diolch am y croeso cynnes a gafwyd yn yr ysgolion gan staff yr Adrannau Cymraeg. Ym mwyafrif helaeth yr achosion trefnwyd ystafelloedd addas ar gyfer yr arholi. Mae'n arfer dda codi arwydd i rybuddio disgyblion eraill rhag dod i mewn a tharfu ar yr arholiad ac i gyfyngu ar gyhoeddiadau ar yr uchel seinydd.

Gweinyddol

Er bod mwyafrif y canolfannau yn llenwi'r ffurflen yn gywir gan restru enwau'r ymgeiswyr yn nhrefn teilyngdod, yn anffodus cafwyd nifer o enghreifftiau eleni lle na wnaed hyn a lle roedd y grwpiau trafod wedi eu dethol ymlaen llaw. Gweler sylwadau am hyn ar Uned 1 sydd hefyd yn berthnasol i Uned 4.

Roedd marciau'r canolfannau yn ddigon agos i'r asesiad ar y dydd ond cafwyd enghreifftiau achlysurol o unigolion yn perfformio'n arwyddocaol uwch neu'n is. Mae'r arholwyr yn defnyddio'r marciau gan y ganolfan fel canllaw ar gyfer gosod cwestiynau ac yn gyffredinol roedd y marciau'n fan cychwyn gwych wrth fwrw ati i arholi.

Cyffredinol

Mae angen cadw'r cwestiwn mewn cof wrth drafod. Mae dal angen dysgu gwrando ar eiriad cwestiwn. Mae lle i ddatblygu, dadansoddi ac ystyried barn wahanol ond dylid dod yn ôl o hyd at y cwestiwn. Roedd tuedd gan rai unigolion eleni eto i grwydro a siarad yn hirwyntog a thrwy hynny arddangos diffyg aeddfedrwydd a threiddgarwch. Roedd gan y goreuon y gallu i roi chwyddwydr ar ddigwyddiadau, cymeriadau neu olygfeydd penodol ond ar yr un pryd roeddent yn llwyddo i edrych ar y darlun mawr a thynnu tystiolaeth o wahanol rannau o'r testun gan ateb y cwestiwn. Rhaid canmol y goreuon hefyd am ddangos blaengaredd a mwynhad wrth ymateb i gwestiynau heriol.

Roedd yr ymgeiswyr a oedd wedi arfer â thrafod yn gyson annibynnol mewn grwpiau gwahanol yn gallu ymdopi'n well gyda chwestiynau mwy annisgwyl neu heriol ac yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth.

Pwysigrwydd dyfynnu ac enghreifftio: Mae ymgeiswyr ar y brig yn dyfynnu'n gywir a helaeth ac mae eu gwybodaeth am y testun yn eithriadol fanwl. Ond gwir dweud bod dal angen gwybodaeth fanylach eto am y testun yn achos nifer arwyddocaol o ymgeiswyr. Byddai dyfynnu llawer mwy cyson a chyfeirio at fwy o enghreifftiau penodol yn hoelio eu sylwadau ac yn cryfhau eu hymateb er mwyn medru siarad yn benodol yn hytrach na chyffredinol.

Martha Jac a Sianco

Amlygwyd dealltwriaeth dda o'r ffordd o fyw a welir yn y nofel a'r gallu i gydymdeimlo â phob un o'r cymeriadau. Roedd thema 'caethiwed' wedi rhoi rhyddid anhygoel o ran posibiladau synoptig.

Agweddau i'w hystyried:

- Mae angen mwy o sylw ar ieithwedd amrywiol yn y gwaith o adeiladau cymeriad e.e. Jac yn llym iawn a'i sgwrsio'n siarp a diflewyn ar dafod ac eto gall fod yn deimadwy ac emosynol wrth annog Martha i gymryd ei chyfle gyda Gwynfor. Mae iaith Sianco'n adlewyrchu natur syml, rhwystredig ei gymeriad ac yn llawn elipsis ac eto mae cyfoeth geirfa byd natur ganddo sy'n adlewyrchu'r sylw a roddwyd iddo yn blentyn gan ei dad. Nid oes atal dweud ganddo pan mae'n rhestru enwau blodau.
- Mae angen ystod ehangach o enghreifftiau a mwy o ddyfnder wrth drafod arddull e.e. hiwmor/cymariaethau bachog/cyffelybiaethau.
- Gwelir gobaith yn cael ei ddryllio – mae angen manylu ar obeithion Martha, Jac, Mami. Gellir hefyd ystyried Gwynfor.
- Golygfeydd Cae Marged – mae angen mynd ar ôl mwy eto o'r golygfeydd a'u harwyddocâd.
- Cymdeithas yn dadfeilio – gwelwyd dealltwriaeth dda gan nifer ond gellir manylu a rhoi mwy o enghreifftiau gan gymharu'r gorffennol a'r presennol yn llawnach.
- Strwythur – llwyddwyd i esbonio'r flwyddyn amaethyddol ond mae angen mwy eto o ddyfnder.
- Roedd rhai'n anymwybodol o'r ffaith bod Jac yn gwybod am enedigaeth babi Martha a'r ffaith iddo ei guddio rhag ei chwaer. Onid ei gariad brawdol a'i barch at ei chwaer sy'n peri iddo gadw'r gyfrinach a pheidio ei gwawdio am hyn?
- Gellir rhoi mwy o sylw i arferion ac ofergoelion cefn gwlad sy'n frith drwy'r nofel e.e. lladd brân gyda spwng a marmelit, crop o gnau = lot o fabis bechgyn, rhoi corryn lawr gwddf twrci, draenen wen yn gwynnu, cei hau dy hâd bryd hynny...
- Mae angen dealltwriaeth a gwybodaeth fanylach am isgymeriadau a'u lle yn y gymdeithas leol e.e. John Penbanc, Emyr Siop, Sam Fish, y merched yn y caffi.
- Dylid ystyried beth sy'n absennol yn y gymdeithas.

Blasu

Cafwyd trafodaethau difyr yn y canolfannau ac mae'n amlwg bod themâu'r nofel yn berthnasol i'r bobl ifanc a'i hastudiodd. Trafodwyd yn ddeallus y modd yr ymatebai'r gwahanol gymeriadau i'r gwahanol fwydydd yn y nofel ac arwyddocâd symbolaidd y bwydydd. Disgrifiwyd, gan roi enghreifftiau penodol, y modd y llowciai Pegi ei bwyd fel plentyn a chysylltwyd hyn â'i salwch. Ar y llaw arall gwrthod y 'twrci mewn creision yd' a wnaeth Isaac a gwylltio a wnaeth Jennie Glanrafon, mam Pegi gan daflu'r bowlen grempog at y wal a'i malu. Roedd ymateb y ddau hyn wrth gwrs yn dangos eu casineb at Pegi. Gan fod yn y nofel amrywiaeth eang o gymeriadau roedd cyfle i'r arholwr ganfod dyfnder gwybodaeth y disgyblion wrth holi am berthynas y cymeriadau hyn â'i gilydd. Trafodwyd yn ddeallus y ffaith nad oedd y gwahanol gymeriadau mewn gwirionedd yn adnabod ei gilydd go iawn. Cafwyd trafodaethau ystyrion ar y prif themâu, sef y diffyg cariad, dianc rhag wynebu problemau, obsesiwn, methiant i gyfathrebu a chydwybod euog.

Agweddau i'w hystyried:

- Ystyriaeth bellach i grefft a strwythur y nofel
- Trafod ieithwedd y gwahanol gymeriadau – mwy o ystyried a chwilio am enghreifftiau lle nad yw'r awdures wedi amrywio digon ar eu hieithwedd
- Mwy eto o ddyfnder wrth drafod perthynas y cymeriadau â'i gilydd

Un Nos Ola Leuad

Cafwyd trafodaethau dadansoddol a deallus dros ben. Mae nifer o fyfyrwyr yn defnyddio barn ysgolheigion yn fedrus iawn er mwyn ategu eu barn a'u sylwadau eu hunain ond mewn ambell achos roedd gorddibyniaeth ar farn pobl eraill a cholliwyd golwg ar y testun ei hun a'r angen am ymateb personol. Mae angen gwylio nad yw'r ymgeiswyr yn gorbwysleisio y ddamcaniaeth Oedipus / athroniaeth Yung gan fod perygl i ambell un suddo mewn cors athronyddol nad ydynt wir yn ei deall. Mae tuedd i anghofio mai mam a mab sydd yma'n brwydro yn erbyn amgylchiadau gormesol bywyd.

Agweddau i'w hystyried:

- Mae angen ystyried beth yw gwerth crefydd i'r cymeriadau. Dylid ystyried cymharu agwedd y Fam a Nain at grefydd e.e ai'r fam sydd fwyaf crefyddol ond Nain sydd fwyaf Cristnogol?
- Y Diwygiad – mae Wil Coler Starts yn cael sylw ond mae angen ystyried yn llawnach a gafodd y Fam ddiwygiad.
- Mae angen cyfle i amlhau sylwadau gan gyfeirio at dystiolaeth wrth drafod rhagrith crefydd.
- Dylid rhoi mwy o sylw i arwyddocâd yr emynau yn y nofel a dyfynnu ohonynt i brofi sut y rhagfynegant neu y cefnogant ddigwyddiadau'r nofel. 'Yr eneth gadd ei gwrthod' – nifer wedi sôn yn anghywir am y gân fel emyn.
- Mae angen mwy o ddyfnder ac enghreifftiau wrth ymdrin â thechnegau arddull y nofel – roedd rhai ymgeiswyr yn bodloni ar drin tafodiaith Bethesda gan anghofio am gyffelybiaethau lliwgar, symbolau, defnydd o ddeialog ac iaith blentynnaidd.
- Dylid rhoi sylw manwl i bennod agoriadol y nofel a'r modd y mae'n rhagfynegi neu'n grynoded o'r nofel gyfan.
- Mae angen dyfynnu wrth drafod nodweddion arddull pennod 8 a'r bennod olaf.
- Amlygwyd dealltwriaeth o ddiffyg trefn y nofel, ond roedd enghreifftio yn brin ar y cyfan. Dylai ymgeiswyr ar y bandiau uwch drafod cyfosod golygfeydd gwrthgyferbyniol yn llawnach a manylach.
- Trafod hiwmor – roedd rhai wedi dweud nad oes hiwmor yno o gwbl.
- Mae angen trafod symbolau e.e. y Lleuad, y Pry Cop, yr Angylion, y lliw Glas.
- A oes tynfa at Ben Llyn Du drwy'r nofel? Mae angen sôn am Em a phennod Hel Llus.
- Dylid cyfeirio at fwy o gliwiau yn y testun wrth drafod diffyg presenoldeb y tad e.e. enghreifftiau o'r bachgen yn holi am ei dad ac ymateb y fam, y modrwyau, sôn am greithiau.
- Gellid rhoi mwy o sylw i'r bennod hel llus a chofio trafod ymweliad y bachgen â Thyddyn Penllyn Du, cyfarfod Toss y ci, llygaid glas y ffermwraig a'r llais gan fod y digwyddiadau hyn yn rhagfynegi digwyddiadau olaf y nofel gyda Jini Bach Pencae.
- Mae angen mwy o sylw i gynnwys y breuddwydion a'u harwyddocâd (ond gwelwyd gwelliant mewn rhai canolfannau).
- Mae angen trafod dylanwad y Rhyfel Mawr.

Dan Gadarn Goncrit

Roedd yr ymgeiswyr yn amlwg yn mwynhau clyfrwch yr awdur. Cafwyd sylwadau da wrth drafod nifer o agweddau e.e. pa gymeriadau sy'n 'gwisgo masg', absenoldeb cydwybod, arwyddocâd y tair rhan ac arwyddocâd y teitl er enghraifft.

Agweddau i'w hystyried:

- Golygfa'r caffï – roedd y goreuon yn gallu trafod ei phwysigrwydd ond angen rhoi sylw i bob llinyn stori sydd yma gan ystyried eu harwyddocâd.
- Y tair rhan – gwelwyd dealltwriaeth o'r tair rhan ond angen i nifer o ymgeiswyr fanylu mwy eto.
- Mae angen ystod ehangach o enghreifftiau o gyffelybiaethau a'r ffordd mae Mihangel Morgan yn amrywio iaith cymeriadau gwahanol. Gwelwyd bod ymgeiswyr yn fwy cyfforddus yn trafod iaith Mama a Tada na'r cymeriadau eraill.
- Mae dal angen mwy o fanylder a gwell dealltwriaeth o'r Brifysgol a'r Adran Geltaidd ynghyd â beirniadaeth Mihangel Morgan o'r sefydliad. Roedd nifer heb weld y dychan. Siomedig yn gyffredinol oedd y drafodaeth ar gymeriadau'r Brifysgol.
- Roedd y darlun o Aberdyddgu drwy lygaid Alys yn amrywio o ran manylder a dyfnder.
- Ai llenor ym min sbwriel cymdeithas yw Mihangel Morgan? Rhai wedi mynd ar ôl arddull yn hytrach na thrafod y math o bobol y mae Mihangel Morgan yn eu portreadu a'r math o fyd y mae'n ei bortreadu. Mae angen paratoi'n well er mwyn medru trafod yn fanylach.
- Mae angen rhoi sylw i gyfryngau'r byd modern e.e. caneuon, ffilmiau.
- Arwynebol oedd yr ymateb i berthynas Toni a Maldwyn mewn sawl achos. Mae angen mwy o enghreifftiau penodol.
- Mae angen trafod cymeriadau diwreiddiau.

Agweddau Synoptaidd

Roedd yr ymgeiswyr ar y brig yn cyfeirio at ystod helaeth iawn o lenyddiaeth ac yn dyfynnu'n berthnasol ohonynt – yn gerddi, straeon byrion a nofelau yn ogystal â dramâu a welwyd ganddynt. Amlygwyd dealltwriaeth ddofn ac roeddent yn gallu cymhwysu gwybodaeth a thynnu casgliadau perthnasol. Yn wir, roeddent yn serennu o gael y cyfle i drafod gweithiau eraill. Mae darllen eang yn parhau i wreiddio mewn ysgolion ac yn cyfoethogi profiad a chyfraniad y myfyrwyr.

Agweddau i'w hystyried:

Mae'n syniad da hyfforddi'r ymgeiswyr i gyfeirio at 'weithiau llenyddol eraill' yn *ystod* y drafodaeth ac i sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n berthnasol a manwl. Roedd y goreuon yn graff wrth weld cysylltiadau o ran thema, strwythur, natur cymeriadau ac arddull. Wrth adael y cyfan tan y diwedd roedd y sylwadau yn aml yn ddigyswllt gyda'r ymgeiswyr wedi blino'n lân ac yn rhestru'r hyn a ddarllenwyd heb gyd-destun. Roedd rhai ymgeiswyr wrth gymharu yn canolbwyntio ar fân ddigwyddiadau'n unig heb weld cysylltiadau thematig – fel rhyw restr siopa heb fanylu. Roedd eraill yn dibynnu ar nodiadau athrawon a heb y wybodaeth personol o'r testunau, yn ei chael hi'n anodd cymhwysu'u hatebion yn berthnasol.

Eleni eto, gwelwyd ymgeiswyr mewn rhai canolfannau a oedd yn gallu ymdrin â'r nofel osod yn ddeallus iawn ond dim ond nifer gyfyngedig o destunau synoptaidd a drafodwyd ganddynt - weithiau dwy neu dair stori fer ynghyd â thestunau'r cwrs TGAU. Mae darparu testunau i'w trafod yn y dosbarth yn syniad da ar gyfer ymgeiswyr y graddau isaf. Fodd bynnag, tuedda i gyfyngu ar y goreuon a'r canolig, yn enwedig pan glywir hwy'n ailadrodd yr union sylwadau a glywyd gan y grwpiau is eu gallu. Disgwylir i'r ymgeiswyr ar y brig arddangos rhychwant eang a chyfoethog o ddarllen personol. Does dim disgwyl i bawb fod wedi darllen llyfrau hollol wahanol i'w gilydd. Yn wir, pan fydd sawl ymgeisydd wedi darllen yn eang byddant yn anorfod wedi darllen llawer o'r un llyfrau – bydd hyn yn arwain at drafodaethau diddorol iawn a gallant gyfoethogi eu hymatebion ei gilydd.

Eleni, cyfeiriwyd at nofelau a chyfrolau straeon byrion megis:

Traed Mewn Cyffion, Monica, Tywyll Heno, Chwalfa, Afal Drwg Adda, Cysgod y Cryman, Pant Y Wennol, I Dir Neb, Y Bwthyn, Neb Ond Ni, Abermandraw, Rhannu'r Ty, Bitsh, y Gemydd, Llanw, Lladd Duw, Wrth fy Nagrau i, Dirgel Ddyn, Cai, I Botany Bay, Gwenddydd, Sol a Lara, Pan oeddwn fachgen, Dal hi, Eira Môn Eira Mawr, Gweledigaethau'r Bardd Cwsg, Y Bwthyn, Ffydd Gobaith Cariad, Llanw, Y Ferch ar y Ffordd, Y Graig, Yn y tŷ hwn, Rhyd y Gro, Pum diwrnod ac angladd, Gwyn eu byd yr adar gwylltion, Ymbelydredd, Pijin, Rhaid iti fyned y ffordd honno dy hun, Yn y Gwaed, Smôc Gron Bach, Lliwiau Liw Nos, Mr Blaidd, Fel Aderyn, Atyniad, O Ran, Pantglas, Rhodd Mam, Y Gwreiddyn, Plu, Saith Oes Efa, Cathod a Chŵn, Clwyfau, Ffair Gaeaf, Te yn y Grug, Saith Pechod Marwol, Brodyr a Chwiorydd... Hefyd, roedd nifer wedi trafod y nofelau eraill sydd ar y cwrs Safon Uwch wrth drafod eu nofel hwythau.

Gwelwyd mwy o drafod cerddi eleni a chafwyd dyfynnu helaeth ohonynt - cerddi fel 'Y Meirwon', Gwenallt; 'Gyrru trwy Storm', Iwan Llwyd; 'Mae Iesu'n Gefnder i Sion Corn', Dafydd Rowlands; 'Gwladys Rhys', W.J. Gruffudd; 'Capeli', Rhydwen Williams; 'Y Cynhaeaf', Dic Jones; 'Gwaddol', Ceri Wyn Jones

CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 5

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2017

Uwch Gyfrannol/Uwch

Uned 5: Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau

Gwelwyd safon dda i bapur Uned 5 yn gyffredinol, er mai prin oedd yr ymgeiswyr a lwyddodd i gyrraedd yr uchelfannau. Dyma'r tro cyntaf i'r fanyleb newydd gael ei harholi ac roedd y gofynion yn amrywio – rhai cwestiynau'n gofyn am sgiliau gwahanol i'r hyn a arholwyd yn y gorffennol, tra bo cwestiynau eraill yn dilyn yr un patrwm â'r hen fanyleb. Clustnodwyd dwy awr i gyflawni'r papur eleni am y tro cyntaf, ac arweiniodd hyn at atebion mwy cytbwys o ran hyd, er bod peth tystiolaeth o gamamseru. Calonogol hefyd yw cofnodi bod cywirdeb mynegiant y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dda. Diffyg cymhlethdod eu dadleuon a'u syniadau oedd yn amharu ar farciau AA3 (Defnyddio Iaith Ysgrifenedig) yn hytrach na gramadeg a chystrawennau gwallus.

Adran A: Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

1a

Roedd y cwestiwn yn wahanol iawn i'r dasg trosi a fu yn y gorffennol. Wrth ateb y cwestiwn hwn y gwelwyd yr amrywiaeth helaethaf yn safon yr atebion, nid yn unig oherwydd gallu ymgeiswyr ond hefyd oherwydd sut y cawsant eu hyfforddi yn y canolfannau. Gofynnai'r cwestiwn am dri pheth – dealltwriaeth o ddigwyddiadau'r adran a ddyfynnwyd, ymwybyddiaeth o'r elfennau arwyddocaol a gynhwyswyd yn yr adran o ran nodwedd neu gymhellion cymeriad, perthynas cymeriadau â'i gilydd, thema, cefndir hanesyddol neu gymdeithasol fel enghraifft, ac yna, yn drydydd, gyfeirio at elfennau tebyg neu wrthgyferbyniol mewn rhan arall o'r chwedl, neu ystyried digwyddiadau eraill a arweiniodd at y dyfyniad, neu a ddeilliai ohono.

Calonogol yw nodi i bob ymgeisydd adnabod digwyddiadau'r dyfyniad a bod ganddynt afael dda ar y ffordd y datblygodd y chwedl wedi digwyddiadau dramatig yr agoriad. Gwelwyd rhai atebion cynhwysfawr a deallus gan y goreuon lle'r oeddent yn manylu ar gymal, ar air neu weithred benodol gan ymhelaethu ar y modd yr oedd yn arwyddocaol. Roedd yn amlwg bod rhai canolfannau wedi hyfforddi ymgeiswyr i ddefnyddio cymalau oedd yn eu harwain i ddadansoddi, fel 'Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd . . .', 'Pwysigrwyd y weithred hon oedd . . .' ac 'Mae arwyddocâd pellach i hyn drwy . . .'

Eto, amrywiol oedd yr ymateb o ran cynnwys yr atebion, rhai yn aralleirio'r dyfyniad yn ei gyfanrwydd i Gymraeg diweddar, heb ymgais i grynhoi na rhoi sylw i nodweddion arwyddocaol, a rhai'n mynd rhagddi i adrodd hanes digwyddiadau'r chwedl i gyd. Gwelwyd rhai ymgeiswyr yn cryhoi'r digwyddiadau cyn y dyfyniad, ac yna'n adrodd holl digwyddiadau'r chwedl ar ôl y dyfyniad mewn atebion hirfaith, ond heb grybwyll yr un arwyddocâd, ac felly nid oeddent yn ateb gofynion y cwestiwn. Roedd eraill yn cyfeirio at nodweddion arwyddocaol fel statws y ferch, priodas wleidyddol, pwysigrwyd y ceffylau, ond heb fanylu, nes iddynt fynd yn gatalogaidd braidd.

Gwelwyd dyfynnu pwrpasol gan hanner uchaf yr ymgeiswyr gyda nifer dda o ganolfannau wedi annog eu hymgeiswyr i gyferio at ddamcaniaethau ysgolheigion a rhai'n gallu dyfynnu'n effeithiol o rannau eraill o'r chwedl yn ogystal. Dylid gochel rhag gosod paragraff agoriadol stoc i'w ddefnyddio gan holl ymgeiswyr y ganolfan. Gwell yw gallu perthnasu'r sylwadau i'r darn a ddyfynnir yn hytrach na gorgyffredinoli. Yr wir, mewn ambell ganolfan cafwyd yr un agoriad i ateb 1a ac 1b – 'Trasiedi yw chwedl Branwen, a dyma ail gainc y Mabinogi,' a hynny gan yr holl ymgeiswyr!

1b

Yn gyffredinol, roedd ymatebion 1b yn gryfach nag 1a, gyda'r mwyafrif helaeth yn trafod nifer o nodweddion perthnasol. Roedd y goreuon wedi gallu dewis a dethol yr hyn oedd yn berthnasol a manylu ar y rheiny, tra bo'r atebion gwannach yn tueddu i gynnwys holl wybodaeth yr ymgeiswyr yn ddirifn, neu yn adrodd rhan Efnysien yn y chwedl yn hytrach na dadansoddi beth mae hynny'n ei ddangos am ei gymeriad.

Roedd llawer wedi deall y ddeuoliaeth yng nghymeriad Efnysien, ac yn gweld sut y mae'r gŵr dichellgar, dialgar yn gweithredu i achub ei deulu a'i gydwladwyr drwy dorri'r pair. Yn gyffredinol roedd canolfannau wedi cyflwyno ansoddeiriau addas fel gwyrddroedig, cymhleth, cyfrwys, treisgar ac ati, a gallai'r ymgeiswyr enghreifftio a dyfynnu o'r chwedl, gan wneud defnydd da o'r dyfyniad ar y papur cwestiwn. Gallai nifer o'r goreuon ddyfynnu o rannau eraill o'r chwedl yn yr orgraff wreiddiol, a rhai yn gwneud hynny gyda darnau na chynhwyswyd yn y detholiad e.e. Efnysien yn 'edrych golygon orwyllt antugarawc ar hyt y ty'. Gwelwyd tystiolaeth o ddarllen pellach neu ddyfynnu gwaith ysgolheigion megis Brynley F. Roberts, Branwen Jarvis, Gwyn Thomas, Helen Fulton, Christine James a Sioned Davies, gyda nifer helaeth wedi defnyddio'r adnoddau ar wefan CBAC. Roedd y goreuon wedi gallu perthnasu'r dyfyniadau a'r cyfeiriadau hyn yn ddeheuig i'w hatebion. Ar y llaw arall roedd canolfannau cyfan nad oeddent yn cynnwys yr un dyfyniad na chyfeiriad at ddamcaniaeth ysgolheigaidd yn yr un o'r atebion ar y chwedl.

Yma eto, gwelwyd yr un dyfyniad Saesneg yn cael ei ddefnyddio fel paragraff agoriadol gan bob ymgeisydd mewn canolfan, ond chwa o awyr iach oedd disgrifiad un ymgeisydd canolig o ran safon o Efnysien fel 'penbleth o gymeriad.'

Mae enghreifftiau o ddefnyddio termau anaddas – 'y dyfyniad yma wedi cael ei echdynnu o ddechrau'r chwedl'; 'uwcholeuo' yn hytrach na phwysleisio; 'ymateb drastig Efnysien'; a 'thristwch yn cael ei fewnbynnu i'r darn.' Eto, roedd safon iaith a mynegiant yn foddhaol a llawer yn dda. Colli marciau yr oeddent gan nad oedd y syniadau y ceisient eu cyflwyno mor heriol a chymhleth ag y dylent fod.

Adran B: Hengerdd a'r Cywyddau

Nid yw natur y cwestiynau wedi newid yn yr adran hon, ond bod dau ddyfyniad yn hytrach nag un. Yn anffodus mae'r un math o wendidau'n ymddangos â'r rhai a nodwyd mewn adroddiadau yn y blynyddoedd a fu.

2a

Mae atebion yr ymgeiswyr yn rhannu'n dri math:

- gwybodaeth am y bardd, yr Hen Ogledd, cerdd 'Y Gododdin', y llawysgrifau, y canu arwrol, ond heb berthnasu fawr ddim i'r gerdd
- aralleirio cynnwys Awdl 1 heb roi fawr ddim gwybodaeth ychwanegol am y cyd-destun hanesyddol, daearyddol, cymdeithasol ac ati
- rhai a lwyddodd i gyfuno'r ddau uchod

Roedd llai o drefn ar yr atebion yn gyffredinol, gyda thuedd i bentyrru'r wybodaeth fel y deuai i'w cof, blith draphlith braidd. Roedd paragraffu'n aml yn brin. Cafwyd y cymysgedd rhyfeddaf o ffeithiau – rhai'n gywir ac addas, eraill yn ffrwyth dychymyg neu gamargraff dybryd!

Gwendid cyson oedd nad oedd ymgeiswyr yn cyfeirio digon at y gerdd oedd o'u blaenau, ac yn methu cymhwyso'r wybodaeth oedd ganddynt am y cefndir drwy ddyfyniadau penodol. Mewn amryw o sgrïptiau ni chyfeiriwyd at Awdl 1 nes y paragraff olaf. Dylid ceisio cydio'n gyson mewn dyfyniadau o'r gerdd er mwyn perthnasu'r wybodaeth e.e.

- 'ysgwyd ysgafn,' 'cleddyfawr glas, glân' yn dangos delfrydau arwrol
- 'Cynt i fwyd i frain' yn enghraifft o'r teyrngarwch a'r ffyddlondeb a oedd yn nodweddiadol o'r canu arwrol, gyda'r syniad o 'dal medd' yn ganolog
- 'Cu cyfail' yn dangos statws y bardd teulu a'r ffaith i Aneirin gyd-fyw â'r osgorrd yn ystod y flwyddyn o baratoi
- 'Lladd un mab Marro', drwy enwi'r arwr mae'n sicrhau anfarwoldeb iddo sy'n clymu â swyddogaeth y bardd

Ar y llaw arall, gwelwyd rhai ymgeiswyr ar y pegwn arall yn manylu gormod ar gynnwys y gerdd, gan ei haralleirio fesul llinell, a dadansoddi'r arddull hyd yn oed, a hynny ar draul gwybodaeth ffeithiol neu ddamcaniaethau am y cefndir. Mae angen cyfuniad o'r ddau beth. Lle mae barn ysgolheigion yn cael ei defnyddio, llwydda'r goreuon i wneud hynny'n fedrus ac yn ddeallus. Caiff amrywiaeth eang o ysgolheigion eu dyfynnu. Fodd bynnag, gwelwyd nifer dda o ganolfannau lle'r oedd cyfeiriadau at ddehongliadau ysgolheigaidd yn brin neu ar goll yn llwyr, sy'n awgrymu na roddwyd pwyslais ar hyn. Yn gyffredinol, cyfeiriwyd yn helaeth at Syr Ifor Williams a Gwyn Thomas, ond Gwyn Thomas gafodd ei gamddyfynnu amlaf hefyd. At 'Farwnad Owain ab Urien' gan Daleisin y mae'n cyfeirio wrth ddweud 'Awdl fer, ond cerdd fawr.'

2b

Ar y cyfan, dyma'r cwestiwn a gafodd ei ateb wannaf. Mae'n bosibl fod elfen o gamamseru, ond cafwyd yr argraff mai diffyg gwybodaeth am y gerdd, neu ddiffyg ymwybyddiaeth o'r gofynion oedd y rhesymau pennaf. Ychydig oedd wedi gwneud defnydd o adnoddau newydd CBAC ar gywyddau Dafydd ap Gwilym. Collwyd cyfle i fywiogi'r hen nodiadau efallai.

Gwelwyd nifer yn rhagymadroddi gormod ar gefndir y bardd a'r dylanwadau arno yn hytrach na chanolbwyntio ar grefft ac arddull y dyfyniad. Roedd tuedd, hyd yn oed ymhlith y goreuon, i'r ateb hwn droi'n gatalog o nodweddion arddull fel ag yr oeddent yn ymddangos yn y dyfyniad. Ychydig iawn oedd wedi cynllunio eu hateb drwy grynhoi nodweddion tebyg â'i gilydd e.e. delweddau, defnyddio'r synhwyrâu, y gynghanedd a'r elfennau sy'n apelio at y glust. Y nodweddion mwyaf poblogaidd oedd y cyfarch, ansoddeiriau, rhestru, a chymeriad geiriol/llythrennol. Ychydig iawn a lwyddodd i drafod sut y mae delwedd y marchog yn cael ei datblygu drwy'r cyfeiriadau at ryfel a'r eirfa filwrol, a phrin oedd y cyfeiriadau at y frwydr oesol rhwng y tymhorau, elfen y byddwn wedi disgwyl iddi fod yn ganolog yn yr ateb. Syndod oedd gweld cymaint o'r ymgeiswyr oedd wedi meddwl mai'r ceffyl ei hun oedd y 'marchog cadarn' a'r duedd wedyn oedd cyfeirio ato fel symbol o gryfder a ffrwythlonedd. Disgrifiad arall a ddrysodd lawer o ymgeiswyr oedd 'glwysgor glasgoed.' Yn hytrach na deall y 'côr' fel y coed yn plethu uwchben fel cangell yn yr eglwys ceir cyfeiriadau at y 'coed yn canu,' sŵn y gwynt drwy'r coed fel côr,' neu hyd yn oed y coed yn 'sefyll yn unol.' Bu cryn gamddeall ar y 'niwl gwyn' hefyd a chymerwyd yn gyffredinol bod hwn yn disgrifio'r gaeaf. Roedd y cyfeiriadau at y mesur ac at y gynghanedd yn arwynebol gan lawer a chyfeiriwyd at y sangiad fel ffordd o greu hiwmor, heb allu gwahaniaethu rhwng y cywydd hwn a 'Trafferth Mewn Tafarn' o bosibl.

Cafwyd rhai atebion cynhwysfawr, yn dangos dealltwriaeth o'r gerdd ar lefel dreiddgar ac aeddfed ac yn pwysleisio'r modd yr oedd crefft ac iaith y bardd yn cyfleu'r syniadau. Ond mae egluro effeithiolrwydd y grefft a'r arddull yn dasg anodd ac mae tuedd i orgyffredinoli ac i weld yr arwyddocâd rhyfeddaf yn aml – bod sangiad yn cael ei ddefnyddio 'sy'n creu awryglch ychwanegol at weddill y gerdd,' a'r gog yn 'awgrym o burdeb y mis'! Mae angen mwy o ymarfer, ar lafar yn y dosbarth, yn ogystal ag yn ysgrifenedig.

Yr argraff a gefwyd eleni oedd bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi eu clystyrru tua'r bandiau canol. Cymharol ychydig a lwyddodd i serennu, ond ychydig oedd yn anobeithiol hefyd. Mae cyfle i ganolfannau adeiladu ar eu gwaith da eleni fel y bydd yr elfennau newydd yn ennill eu plwyf. Diolch am y gwaith caled ar ran y canolfannau a'r ymgeiswyr wrth ymgymryd â'r uned ar ei newydd wedd.

CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 6

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2017

Uwch Gyfrannol/Uwch

Uned 6: Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun

Adran A Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

Mae'n deg nodi bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn ddigon cartrefol yn trafod y darn ac wedi deall y syniad o henaint a dirywiad iechyd y prif gymeriad. Llwyddodd y mwyafrif hefyd i gyfeirio at yr arferiad dyddiol o astudio'r map a'r cysur a deimlai'r cymeriad o wneud hynny. Roedd y darn wrth gwrs yn gyforiog o themâu posib i'w trafod, yn cynnwys *cariad at fro, perthyn, henaint, unigrwydd, colli adnabyddiaeth, creulondeb henaint, marwolaeth, newid byd, perthyn, colled, bregusrwydd bywyd* - themâu eang eu hapêl a gynigiai gyfleoedd i drafod yn synoptaidd.

Dylid pwysleisio mai gwobrwyo dadansoddiad ystyrion a deallus a wneir a phleser oedd darllen dehongliadau rhai ymgeiswyr.

Cryfderau

- Yr arfer orau o ran **strwythur y traethodau** oedd trafod cynnwys, arddull, themâu a'r elfen synoptaidd law yn llaw. Roedd ansawdd y traethodau hyn yn dipyn aeddfetach a'r sylwadau yn fwy treiddgar a deallus. Eto rhaid nodi bod nifer o ymgeiswyr canolig ac is eu gallu yn trafod y cynnwys a'r arddull law yn llaw ac yn trafod y themâu a'r elfen synoptig yn ddiweddarach – rhaid nodi bod y patrwm hwn yn ddigon llwyddiannus i'r ymgeiswyr hynny, yn fwy diogel ac yn rhoi strwythur clir i'r traethodau.
- Roedd y mwyafrif wedi deall fod y map yn ddelwedd neu'n drosiad estynedig o henaint neu salwch ac wrth i'r map freuo a threulio, felly hefyd y cymeriad wrth golli golwg.
- Rhai o'r goreuon yn unig a lwyddodd i weld y **map fel symbol trosiadol** hefyd o'r hyn a oedd yn digwydd i'r pentref gan gyfeirio at ddiflaniad enwau llefydd a thrafod yr ymdeimlad o gymdeithas yn chwalu. Yn yr achosion hyn cafwyd ambell sylw treiddgar am golli '*Ffridd Isa*' ac mai dyma'r newid mwyaf torcalonnus i'r cymeriad. Llwyddwyd hefyd i adnabod thema o ddiboblogi cefn gwlad gan ddadansoddi'r llinell '*Mae'r aflwydd bron â chyrraedd y pentra...*' Llwyddwyd i gyfeirio at '*fisitors*' a'r '*tai newydd*' wrth drafod yr agwedd hon. Trafodwyd yr hiraeth a deimlwyd gan y cymeriad am yr hyn a fu a'r anobaith gan ddal prif hanfod ac ysbryd y darn.
- Llwyddodd nifer i grynhoi'r llinyn storiol fel petai yn eu geiriau eu hunain gan blethu **dyfyniadau'n bwrpasol** i'r drafodaeth.
- Ar y cyfan roedd pawb yn medru cydio mewn **technegau arddull** gan fod digon o dechnegau i'w trafod - yn drosiadau, cymariaethau, tafodiaith, ansoddeiriau, idiomaau, crefft brawddeg, rhestru, ailadrodd a berfenwau. Y goreuon fodd bynnag a lwyddodd i ddewis a dethol technegau amrywiol.
- Ar y cyfan cafwyd **traethodau trefnus** yn bwrw i'r drafodaeth heb ragymadroddi hir ac yn crynhoi'n effeithiol yn y clo.

- Roedd rhai ymgeiswyr wedi **darllen yn eang** ac yn amlwg yn cael gwell cyfle. Y testunau a oedd yn taro deuddeg ac yn argyhoeddi oedd *Blasu, O Tyn y Gorchudd, Llanw, Fel Aderyn, Tywyll Heno, Y Bwthyn, Wrth fy Nagrau i, Tywyll Heno, Y Ffin, 60, Pan oeddwn fachgen, Caersaint, Y Graig, Abermandraw, Ymbelydredd, straeon Lleucu Roberts, 'Moelni', 'Yma Mae fy Lle', 'Trydar'*. Rhyfeddwyd at allu rhai unigolion i ddyfynnu'n helaeth o destunau amrywiol mewn modd perthnasol.
- Roedd **ansawdd yr iaith** yn gyffredinol dda ac yn amlach na pheidio yn adlewyrchiad o naws a dyfnder y drafodaeth.

Agweddau gwannach:

- Tuedd gydag ambell un eleni eto yw **gorgyfeirio'n synoptaidd**. Er bod y cyfeiriadau hyn yn addas, tuedd yw i'r cyfeiriadau dirifedi fygu'r drafodaeth ar y darn ei hun ac o ganlyniad collir y llif a'r dyfnder o'r testun ei hun ynghyd â dealltwriaeth o'r cysyniadau a gwir hanfod y darn. Digwydd hyn ar draws yr ystod gallu. Mae sicrhau'r **cydbwysedd disgwylidig** o ran y drafodaeth rhwng y cynnwys, arddull, themâu a'r elfen synoptig mor allweddol.
- Roedd tuedd i drafod **rhan gyntaf y darn yn unig** ac o'r herwydd collwyd cyfleoedd i brofi dealltwriaeth a dehongli. Cyfeiriwyd at yr arferiad o dynnu'r map ac yna aed ymlaen i drafod y ddamwain. Yma roedd nifer yn baglu, gyda'r drafodaeth am weddill y traethawd yn troi o gwmpas effaith negyddol y ddamwain.
- Canolbwyntiodd sawl ymgeisydd yn ormodol ar ddirywiad meddyliol y cymeriad a'r ffaith i'r ddamwain achosi i'r prif gymeriad wallgofi. Gwelwyd traethodau cyfan yn trafod **gwallgofrwydd** yn unig gan gyfeirio at hunanladdiad ar y diwedd ond yn anwybyddu yn sgil hynny nifer o themâu eraill.
- Ychydig iawn o'r ymgeiswyr a lwyddodd i werthfawrogi'r **haenen ddyfnach** o ystyr sef bod y map hefyd yn drosiad o ddiwedd yr hen ffordd Gymreig o fyw yn yr ardal wledig – ffordd draddodiadol o fyw y mae'r cyfeiriadau mynych at fyd natur hefyd yn symbol ohono. Gyda dyfodiad y *'tai newydd ar ochr arall y dyffryn'*, ceir naws bygythiol a sinistr wrth i'r mewnlifiad (*yr aflwydd / y felltith*) arwain at golli traddodiadau, colli hen ffermydd ac enwau llefydd sydd mor fyw yng nghof y cymeriad.
- Gwelwyd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at y newid a oedd wedi effeithio ar yr ardal a'r hiraeth a deimlai'r prif gymeriad ond trueni mawr mai brawddeg syml a gafwyd gan y mwyafrif yn hytrach na dadansoddiad treiddgar o'r agwedd hon.
- Cafwyd tuedd gan rai ymgeiswyr i gyfeirio at gyffelybiaethau yn unig. Yn amlach na pheidio, nid oedd y dadansoddiad o'r gymhariaeth â'r cudyll coch yn argyhoeddi. Gwelwyd **ansicrwydd termau arddull** gan nifer fechan, gan ddrysu yn arbennig rhwng *enw, ansoddair a berf*.
- Siom oedd y duedd gan rai i **orddibynnu ar destunau'r fanyleb** wrth drafod y synoptig: 'Preseli', 'Moelni', 'Yma mae fy lle', 'Etifeddiaeth', 'Mis Tachwedd a Mis Mai', *Un Nos Ola Leuad, Dan Gadarn Goncrit, Martha Jac a Sianco*, chwedl Branwen.
- Defnyddiwyd 'bardd' yn hytrach nag 'awdur', 'awdures' neu 'lenor' gan rai a chamsillafwyd y gair rhyddiaith.

Adran B: Y Gymraeg mewn cyd-destun

Dyma gwestiwn newydd eleni gyda'r nod o sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu arddangos eu gallu i ysgrifennu darn cywir yn y Gymraeg ar ffurf benodol sy'n dangos eu hymwybyddiaeth o'r cywair a'r gynulleidfa sy'n briodol i'r dasg. Er bod digon o ffeithiau ac ystadegau ar y papur yn sail i'r ysgrifennu mae rhyddid i'r ymgeiswyr wrth gwrs ymhelaethu neu ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir os yw'n briodol, gan amlygu yn sgil hynny eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg yn y gymdeithas. Mor allweddol yw sicrhau bod ein hymgeiswyr Safon Uwch yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion. Y gamp yw defnyddio eu gwybodaeth am ramadeg (Uned 3) yn effeithiol. Dyma gwestiwn felly sy'n cynnig her newydd.

Eleni, y gamp oedd llunio cofnodion cyfarfod Fforwm Ieuenctid Rhanbarth yr Urdd. Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r adran newydd hon ychydig yn anghyson. Gwelwyd anghysondeb ymysg canolfannau o ran ymwybyddiaeth sylfaenol o nodweddion ysgrifennu cofnodion. Roedd y cofnodion mwyaf llwyddiannus wrth gwrs yn arddangos sicrwydd o ran ffurf a chywair. Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn cael eu haddysgu'n ofalus ar gyfer y cwestiwn hwn fel bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o'r ffurfiau a bod eu sgiliau yn datblygu'n hyderus. Anogir i chi felly ddefnyddio'r adnodd **Ffurio'r Ffuriau** gan Peniarth wrth addysgu. Gellir gweld yr adnodd hwn ar wefan adnoddau CBAC <http://adnoddau.cbac.co.uk>

Dyma rai sylwadau all fod o gymorth:

Strwythur:

- Llwyddodd y mwyafrif i nodi pwy oedd yn bresennol, ymddiheuriadau ar y dechrau a nifer yn nodi dyddiad y cyfarfod nesaf. Serch hynny, gwelwyd ambell ymgeisydd na lwyddodd i wneud hynny o gwbl.
- Y goreuon yn unig a oedd yn cynnwys brawddegau megis - *croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn rhai cywir.*
- Gwelwyd y 'sgwarnog UFA yn baglu nifer fawr o ymgeiswyr o ran strwythuro'r cofnodion yn briodol.
- Rhaid canmol rhai ymgeiswyr am ddod i benderfyniad clir ar ddiwedd pob trafodaeth ac roedd yr ymgeiswyr hynny yn amlwg wedi eu harfogi â'r eirfa briodol – *eiliwyd y cynnig, cafwyd pleidlais, cytunwyd...* Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau hefyd na lwyddodd i gyfleu'r ymdeimlad o drafodaeth na phenderfyniad o gwbl.
- Y gwendid pennaf oedd **diffyg adnabyddiaeth** o'r ffurf. Gwelwyd enghreifftiau o gopïo pwyntiau'r papur arholiad a'u gosod mewn rhestr fer o bwyntiau bwled heb unrhyw ymgais i ysgrifennu brawddegau llawn.

Cynnwys:

Cafwyd ymgais dda gan rai ymgeiswyr i gymhwyso'r wybodaeth gan gynnwys **gwreiddioldeb a ffresni** - ambell un yn nodi i aelod o'r pwyllgor fynychu'r daith i Batagonia'r flwyddyn flaenorol, defnyddio gwefannau cymdeithasol i farchnata'r gig. Camp ysgrifennu cofnodion yw **crynhoi'n ofalus** gan ddewis a dethol y wybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, gwelwyd nifer fawr yn ailgyflwyno'r deunydd sbardun ar ffurf brawddegau heb unrhyw ymgais at wreiddioldeb o gwbl. Gwelwyd nifer yn **hepgor gwybodaeth bwysig** e.e. dwy ochr y ddaid ynghylch y noddi neu mewn ambell enghraifft yn hepgor trafod Ynni Gwynt a Phatagonia.

laith:

- Braf gweld ymgeiswyr yn defnyddio iaith gywir, gyfoethog gyda brawddegau cymalog.
- Cafwyd ymwybyddiaeth o'r angen i ddefnyddio *berfau cryno* ac *amhersonol* gan nifer fawr o ymgeiswyr ond roedd cynnal *amser y ferf* yn wendid sylfaenol ac yn sgil hynny collwyd y cywair ar adegau gan gynhyrchu cofnodion yn yr amser presennol neu'r dyfodol. Cafwyd tuedd gan rai i lunio sylwebaeth y cadeirydd.
- Roedd camddefnyddio *berfau amhersonol a threiglo* wedi'r ferf yn wallau cyffredin e.e. '*Awgrymwyd fod; Awgrymwyd Heledd...*'
- Gwall cyffredin: *penderfynwyd i grynhoi* - yr 'i' yn ymddangos yn aml ar ôl penderfynwyd.

Sylwadau cyffredinol sydd yma wrth gwrs ond gobeithio y gallwch fel canolfannau roi sylw manwl i'r pwyntiau sydd wedi codi eleni.

Hoffwn ddiolch o galon i'r arholwyr am eu gwaith ac i chwithau fel athrawon am baratoi'r ymgeiswyr. Ymlaen fo'r nod!



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk